***Cyngor Cymuned Llandyfriog***

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 7 fed o Fehefin , yn Neuadd yr Eglwys Llandyfriog dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Ken Jones.

**1a ) Yn Bresennol.**
Y Cynghorwyr - Derrick Richards, Sian Taylor, Carol Davies, Meinir Thomas, Wyn Thomas,Alan Davies , Ann Jones ,Rhys ap Tegwyn a Ken Jones.

**1b) Ymddiheuriadau .**
Ian James a Branwen Davies.

**1c) Cadarnhau Cofnodion yr 11 fed o Fai**.
Carol Davies (c)
Ann Jones. (e)

**2) Heddlu.**
Estynnwyd croeso yn ol i Jeff Kedward.
Dywedodd fod llawer o broblemau gwrth gymdeithasol a fandaliaeth yn digwydd yn yr ardal ar hyn o bryd.

**3) Cynllunio.**
1,Trafodwyd cais : Install a Defib: ym Mlwch Ffonio ger Derlwyn Llandyfriog A 220211.
Dim gwrthwynebiad.

2,Pencarw , Penrhiwllan , Llandysul , A 220283 -Mr a Mrs Doyle.
Estynniad i gefn yr adeilad presennol.
Dim gwrthwynebiad.

**4) Gohebiaeth.**
Gerddi am ddim.Lleoedd ar gyfer natur.
Ceredigion .

Ynghylch cynrychiolwyr Cynghorwyr Tref a Chymuned ar gyfer Pwyllgor Moeseg a Safonau y Cyngor Sir.

: Cyber Resilience Centre: Cymru.

Enwebu Cynrychiolydd ar ran Awdurdodau llai fel Llywodraethwr Cymunedol ychwanegol ar Gorff Llywodraethol ,Ysgol y Ddwylan CN Emlyn.
Y Cynghorydd Derrick Richards yn cynnig aros ymlaen.
Pawb yn gytun.

:Web Page ir Cyngor Cymuned:
Pawb yn hapus i enwebu :Solutions Factory Pontweli : i wneud y gwaith.
Y Clerc felly i gysylltu gyda hwynt.

Hysbysiad.
Archwilio yn dechrau ar. y 4 ydd o Orffennaf ac yn. gorffen ar yr 29 fed or mis.
Y dyddiad cyhoeddi hyn oedd 7/06/22.Wedi ddangos ar wefan y Cyngor Cymuned.

5) **Materion Ariannol.**
Mrs Anwen Evans - £345.22.
Mrs Gillian Davies - £230.30.
Swalec - £11.86.

Cyfanswm= £ 587.38.

**6) Materion eraill .**

Y Cynghorydd Carol Davies yn gweld cerddwyr yn mynd o amgylch y Ddol yn lle dilyn y llwybyr fel maent i fod.
Y Clerc i drafod y mater gyda Mr Osian Jones .(Wedi anfon neges iddo)

Y Cynghorydd Ken Jones wedi ffonio Trefigin ynglyn a ffurfio :syndicate : archebu olew. Wedi cael gwybodaeth ganddynt.

Y gwaith ar yr heol yn Adpar .Wedi ei ddechrau.

Ceredigion yn cynnig opsiwn o fynychu Cyfarfodydd yn y Siambar neu adref yn :Hybrid: Llawer o waith y Cyngor Sir yn mynd drwyddo i Clic Ceredigion yn gyntaf.

Arweinydd newydd y Cyngor Sir yw y Cynghorydd Brian Davies.
Cadeirydd y Cyngor yw Ifan Davies
Yr Is Gadeirydd yw y Cyghorydd Maldwyn Lewis.

Llongyfarchiadau i blant yr ardal ac sydd wedi enill yn Eisteddfod yr Urdd eleni.

Y Cynghorydd Wyn Thomas yn anfon llythyr o ddioch i Mr Myrfyn Evans am yr holl waith tros y blynyddau ar ran y Cyngor Cymuned.

Hefyd yn dymuno pob lwc i Gareth Thomas fel rhan o garfan Rygbi Cymru yn Ne Affrig yr haf yma.

Llawer yn gofyn pryd fydd staff y Cyngor Sir yn mynd yn ol ir Swyddfa i weithio ,yn hytrach na gweithio o adref.

***Cyfarfod Nesaf ar y 5 ed o Orffennaf yn Neuadd yr Eglwys Llandyfriog am 7.30 or gloch.***